Datblygu ein Polisi a Rhaglenni Cymdeithasol – Y diweddaraf

- Mae'n bleser gennyf gyhoeddi ein bod wedi penodi Richard Davies i arwain y gwaith o ddatblygu ein Polisi a Rhaglenni Cymdeithasol.

  Mae gan Richard gefndir cadarn mewn Rheoli Coedwigaeth, a bu am gyfnod yn Rheolwr Rhanbarth Coedwig yng Nghanolbarth Cymru. Mae ganddo'r ddawn i drin pobl ac mae wedi bod yn gweithio fel rhan o'n Tîm Cymdeithasol yn Nant yr Arian a chyda'n Tîm Adnoddau Dynol Mewnol.

  Bydd Richard yn gweithio o'n Swyddfa genedlaethol yn Aberystwyth, ac mae eisoes wedi dechrau gweithio gyda Mike Pitcher ar Thema Gymdeithasol y Strategaeth Coetir.

- Yn 2006, penderfynodd ein Tîm Rheoli Ystadau ailedrych ar eu "Llyfryn Gweithio gyda Chymunedau". Mae Peter Cloke, ein Rheolwr Rhaglen Gymunedol, sydd wedi'i leoli yn Ne Cymru, wedi bod yn gweithio ar hyn, a byddaf yn derbyn copi o'r drafft cyn bo hir.

  Mae'r llyfryn yn cynnig canllaw ymarferol i grwpiau cymunedol a staff Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Mae'n egluro ein hymrwymiad i gymunedau ym mhob agwedd ar ein gwaith ac yn dangos sut y gall y cymunedau hynny drefnu eu prosiectau eu hunain o fewn y coetiroedd a reolir gennym.

- Fel y cofiwch efallai, gofynnwyd yn wreiddiol i'r Grŵp Cynghori ar Bolisi Ymwneud Cymunedol (GCBYC/CIPAG) gyflwyno dau adroddiad ar wahân mewn perthynas ag Ymwneud Cymunedol mewn coetiroedd Cyhoeddus a Phreifat. Cytunodd PYSC y dylem geisio datblygu un Polisi a Rhaglen Goetir ar gyfer Ymwneud Cymunedol a derbyn ei bod yn bosibl y bydd yn rhaid gweithredu'n wahanol yn achos Coetiroedd Cyhoeddus a Phreifat. Byddwn yn tybied y byddai'r arweiniad diwygiedig ar reoli ystadau CCC yn darparu'r fframwaith ar gyfer Arweiniad i'r Sector Coedwigaeth.

- Yn ystod Cynhadledd Robinwood, a ariannwyd gan yr UE, ac a gynhaliwyd yn Llandudno yn 2007, defnyddiwyd nifer o Brosiectau Cymunedol a oedd yn seiliedig ar Goetiroedd fel astudiaethau achos ar gyfer y teithiau maes a'r gweithdai. Mae'r trafodaethau a ddeilliodd o'r sesiynau hyn wedi ysgogi gwaith pellach. Bydd Richard Davies yn arwain ymateb CCC i'r gwaith hwn.